TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

OCR Diploma Technegol Caergrawnt mewn Celf a Dylunio Lefel 2

Yn gryno

Byddwch chi'n astudio ystod eang o unedau, megis gwneud printiau, serameg, cyfrifiaduron, delweddu digidol, ffotograffiaeth, astudiaethau gweledol, ffasiwn a thecstilau, astudiaethau hanesyddol a chyd-destunol, darlunio, arlunio, dylunio 3D a dylunio graffeg.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau adeiladu sgiliau a hyder mewn ystod o ddisgyblaethau

... Ydych eisiau gyrfa ym maes celf a dylunio

... Oes gennych ychydig o brofiad ym maes celf ond hoffech ei archwilio fwy

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol os oes gennych chi ddiddordeb mewn datblygu sgiliau a magu

hyder ar draws ystod o ddisgyblaethau gan obeithio dilyn gyrfa ym maes celf a dylunio yn nes ymlaen. Os oes eisoes gennych chi rywfaint o brofiad ond nid ydych wedi cael cyfle i archwilio eich ochr greadigol yn llawn, bydd y cwrs hwn yn eich helpu chi i wneud hynny. Mae'n rhagflas go iawn ar nifer o agweddau ar gelf a dylunio ac mae'n cynnwys prosiectau cyffrous a heriol.

Byddwch chi hefyd yn datblygu sgiliau ym meysydd cyfathrebu, technoleg gwybodaeth, defnyddio rhifau, cynllunio a gwaith tîm.

Cewch eich asesu drwy waith cwrs sy'n seiliedig ar dasgau ymarferol a chaiff eich gwaith ei gymedroli'n allanol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch chi'n ennill:

Cymhwyster Lefel 2 mewn Celf a Dylunio

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I astudio ar y cwrs hwn, bydd angen i chi feddu ar o leiaf 4 cymhwyster TGAU, gradd D neu uwch, gan gynnwys Celf neu bwnc creadigol cysylltiedig a, naill ai Mathemateg/Mathemateg Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Diploma Lefel 1 perthnasol yn y maes galwedigaethol priodol gan gynnwys naill ai TGAU Mathemateg/Mathemateg Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn ofynnol, yn ogystal â pharch at bobl eraill, brwdfrydedd am y pwnc, hunan-gymhelliant, gallu creadigol ac awydd i lwyddo.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Lefel 3 mewn Celf a Dylunio a'r Cyfryngau Rhyngweithiol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi brynu llyfrau braslunio, deunyddiau peintio ac arlunio. Efallai y bydd angen talu ffioedd ar gyfer ymweliadau â'r oriel a digwyddiadau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn.